O'm Mhrofiad i – Llinos Williams, Menter Caerdydd: Trefnu Gŵyl Llwyddiannus

Rydym dros y misoedd nesaf yn rhannu cyfres o erthyglau cryno yn trafod meysydd penodol, yn dwyn yr enw 'O'm Mhrofiad i!' Bwriad yr erthyglau hyn yw rhannu arbenigedd ac arfer da.

Llinos Williams, Prif Drefnydd Tafwyl, Menter Caerdydd sydd yn rhannu ei phrofiadau ar sut i fynd ati i drefnu gŵyl llwyddiannus.

***Cynulleidfa** - Gŵyl i bwy yw hi? Pwy yw eich cynulleidfa darged? Faint o bobl ydych chi'n eu disgwyl?*

***Cyllideb** - Yn ddelfrydol, faint o arian ydych chi eisiau i gynnal yr ŵyl? O le fydd yr arian yn dod? Byddwch chi yn cynnal gŵyl am ddim, neu'n disgwyl incwm o werthu ticedi?*

***Pryd a Lle** - Bydd angen gwneud ymchwil i leoliadau addas, ac ystyried dyddiadau posibl - gan wneud yn siŵr bod y dyddiad ddim yn clashio gydag unrhyw ddigwyddiad mawr arall.*

CYLLID

Er bod costau Tafwyl erbyn hyn dros £140,000, cyllideb o ddim ond £2,500 oedd angen i gynnal yr ŵyl am y tro cyntaf yn 2006. Mae modd cynnal gŵyl ar gyllideb fach i ddechrau. Fel enghraifft, £6,000 oedd costau Gŵyl Fach y Fro (Menter Bro Morgannwg) llynedd.

Dyma ambell awgrym o le i geisio am gyllid:

Cyngor Celfyddydau Cymru: Mae modd gwneud cais am hyd at £5,000 ar gyfer unrhyw weithgaredd celfyddydol unrhyw bryd o'r flwyddyn. Mae'r pot yma yn berffaith os ydych chi'n cynnal gŵyl weddol fach am y tro cyntaf. Unwaith mae'r ŵyl wedi sefydlu a'n dechrau tyfu bydd modd trio am gyllid o bot Gwyliau'r Cyngor Celfyddydau, lle gellir ceisio am hyd at £100,000.

Arian i Bawb: Ffurflen gais weddol syml, a ffordd weddol hawdd o geisio am gyllid. Mae modd gwneud cais o hyd at £5,000 unrhyw adeg o'r flwyddyn.

Cronfa Dreftadaeth y Loteri: Os mae elfennau treftadaeth yn rhan o'r ŵyl mae modd ceisio am rhwng £3,000 a £10,000 trwy'r pot Rhannu Treftadaeth:

Noddwyr: Cael noddwyr preifat yw'r ffordd ymlaen yn fy marn i - dim ffurflenni cais, a does dim rhaid adrodd yn ôl ar sut chi'n gwario'r arian. Mae modd cael gwahanol noddwr i sawl elfen wahanol o'r ŵyl e.e. Prif Noddwr, noddwr i'r Llwyfan, noddwr i'r Ardal Blant neu noddwr i'r Gwirfoddolwyr. Bydd hawl wedyn i'r cwmni frandio'r ardal benodol yna a chael sylw yn rhaglen yr ŵyl a chyfryngau cymdeithasol. Unwaith mae cwmni yn cytuno i gefnogi a chyd-weithio mae'n bwysig magu perthynas dda, yna gyda lwc bydd yr un noddwyr yn dod yn ôl blwyddyn ar ôl blwyddyn i gefnogi.

Am fwy o wybodaeth am noddwyr, cewch fwrw golwg ar Becyn Noddwyr Tafwyl.

LLEOLIAD

Erbyn hyn mae Tafwyl yn cael ei gynnal yng Nghastell Caerdydd, ond mewn maes parcio tafarn ddechreuodd yr ŵyl....gallwch chi gynnal gŵyl unrhyw le! Beth am holi Adran Digwyddiadau eich cyngor lleol i weld os oes lleoliad posibl gallant ei roi mewn da?

Ychydig o bethau i ystyried wrth ddewis lleoliad:

Oes cyfleusterau parcio yn y lleoliad, neu yn agos i'r lleoliad?

Oes toiledau yn y lleoliad, neu bydd angen llogi toiledau? (er gwybodaeth y ratio ar y cyfan yw bod angen 1 toilet ar gyfer 50 o bobl)

Oes bwyd a diod yn y lleoliad? Os ddim, oes modd dod ag arlwywyr a bar mewn i'r lleoliad? Oes gan y lleoliad drwydded alcohol, neu os ddim oes modd i chi geisio am eich trwydded eich hunain?

Oes trwydded PRS gan y lleoliad i chwarae cerddoriaeth? Os ddim bydd angen i chi gael eich trwydded eich hunain.

Beth yw capasiti y lleoliad? Faint o bobl gallwch chi gael yn y lleoliad unwaith bydd y llwyfan a phopeth yn ei le?

PARTNERIAID

Mae'n help os gallwch chi ddenu nifer o bartneriaid i fod yn rhan o'r ŵyl. Mae Tafwyl yn bartneriaeth rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol - a dyna pham mae'n gweithio cystal. Mae'n well gweithio mewn partneriaeth gyda llwyth o fudiadau eraill na mynd ati i drefnu popeth dy hun, wedi'r cyfan mae sefydliadau unigol yn arbenigo mewn meysydd gwahanol i ni'r Mentrau Iaith e.e. mae'n well cael Llenyddiaeth Cymru i gydlynu'r Babell Lenyddiaeth, a'n well cael Canolfan Cymraeg i Oedolion i gydlynu'r Babell Dysgwyr.

Ychydig o syniadau:

Beth am gydweithio gyda'r Mudiad Meithrin i gynnig cyfleusterau i fabis a digwyddiadau i blant meithrin yn yr ŵyl?

Beth am gydweithio gyda Llenyddiaeth Cymru i drefnu ambell ddigwyddiad llenyddol i blant, pobl ifanc neu oedolion yn yr ŵyl?

Os am ddod ag ychydig o chwaraeon i'r ŵyl, beth am gydlynu ar y cyd a chriw Chwaraeon yr Urdd?

Beth am weithio gyda theatr leol i gynnal ambell sesiwn ddrama/theatrig yn yr ŵyl?

LOGISTEG

Y peth mwyaf brawychus i nifer yw'r mn bethau diflas ond hynod o bwysig sef y trefniadau iechyd a diogelwch a'r *logistics* o sut mae popeth am redeg ar y dydd. Os mae'r cyllid gennych chi, mi fyswn i'n argymell talu cwmni 'Rheoli Digwyddiadau' i edrych ar ôl elfennau iechyd a diogelwch yr ŵyl, gan eu bod yn gymwys a'n brofiadol yn trefnu digwyddiadau mawr trwy gydol y flwyddyn. Y cwmni rydym yn defnyddio ar gyfer Tafwyl a Gŵyl Fach y Fro yw 2Can Productions: <http://www.2canproductions.com/>

Dyma ychydig o bethau bydd rhaid ystyried:

Yswiriant – Bydd angen Public Liability, Employers Liability ac Equipenemtn Liability. Rydym yn defnyddio Doodson Events Insurance: http://www.doodsonbg.com/Festival-Insurance

Iechyd a Diogelwch - Bydd angen Asesiad Risg manwl iawn, un wedi ei lunio cyn y diwrnod, ac un ar y diwrnod. Bydd angen i bawb sydd yn rhan o'r ŵyl e.e. y partneriaid ac unrhyw un sydd hefo stondin ddarparu asesiad risg o'u gweithgaredd nhw hefyd.

Arlwywyr - Bydd angen Asesiad Risg gan bob un o'r arlwywyr, copi o'u tystysgrif hylendid bwyd, tystysgrifau PAT trydan, a chopi o'u hyswiriant.

Stiwardiaid - Bydd angen nifer o stiwardiaid i gynorthwyo ar ddydd yr ŵyl. Bydd angen stiwardiaid i gadw rheolaeth ar y dorf, cadw mynedfeydd/allanfeydd yn glir a chynorthwyo gydag unrhyw gwestiynau. Fel rheol, dylid unrhyw un sydd yn stiwardio bod dros 18 oed. Os mae bar ar safle'r ŵyl mae'n syniad cael un neu ddau o Swyddogion Diogelwch SIA (mae Showsec a Telgwen yn gallu darparu swyddogion diogelwch Cymraeg).

Trwydded: Mae rhai cynghorau sir yn gofyn i chi drefnu trwydded os ydych chi'n cynnal gŵyl - Temporary Events Notice (TEN). Ffurflen syml a ffi fach iawn sydd i gael y drwydded. Bydda werth ei anfon wedyn at eich Swyddfa Heddlu lleol i'w hysbysu o'r digwyddiad. Bydda'n well holi'r swyddogion eich cyngor lleol am gyngor gan fod rheolau bob sir yn wahanol.

Y peth pwysicaf oll*....mwynhewch y trefnu, a mwynhewch y digwyddiad. Mae gŵyl yn ddathliad hyfryd o'r iaith Gymraeg a'n dangos ein diwylliant ar ei orau. Mae gŵyl yn showcase berffaith o waith y Fenter Iaith a'u partneriaid. Mae'n rhywbeth hwyl, anffurfiol, accessible....sydd yn siŵr o ddenu cynulleidfaoedd newydd i'r Fenter ac i'r Gymraeg.*

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am Tafwyl neu sut i fynd ati i drefnu gŵyl cofiwch gysylltu: llinos@mentercaerdydd.cymru